Tatws, tatws a mwy o datws

cymorth cristnogol

Mae'r cyflwyniad hwn yn cyd-fynd â'r gwasanaeth *Tatws, tatws a mwy o datws* i blant 7-11 oed

Dyma Walter Gutierrez Sursusa. Mae Walter yn byw mewn pentre' bach yn uchel ym mynyddoedd yr Andes yn Bolivia. Weithiau nid yw'n bwrw glaw am amser maith a dydi'r pridd ddim yn dda. Mae'n mynd yn anoddach gwybod pryd ddaw'r glaw a faint o law fydd yn syrthio. Mae hynny'n gwneud hi'n anodd tyfu bwyd yma. Does dim siopau ym mhentref Walter, ac mae'r dref agosaf taith 30 munud i ffwrdd. Fel arfer mae pobl yng nghymuned Walter yn tyfu'r bwyd y maen nhw'n ei bwyta, tatws yn bennaf am eu bod nhw'n tyfu'n dda yma.

Llun: Cymorth Cristnogol/Hannah Richards

Dyma bobl y pentref yn cynaeafu tato. Mae Walter yn gwybod bod bwyta gwahanol fathau o lysiau yn bwysig. Mae Walter yn gwybod bod bwyta llysiau yn helpu plant i fod yn iach a thyfu, ac yn eu helpu i astudio'n well yn yr ysgol. Ond ni allai teulu Walter, na llawer o rai eraill yn y pentref, fforddio prynu llysiau.

Llun: Cymorth Cristnogol/Hannah Richards

Mae bywyd Walter, ei deulu ac eraill yn y gymuned wedi newid. Gyda chefnogaeth Cymorth Cristnogol mae mudiad lleol a elwir yn CIPE (The Center for Private Enterprise) wedi helpu'r pentrefwyr i dyfu llysiau. Sut? Trwy adeiladu 'tai gwydr'. Dyma lun o dŷ gwydr.

Mae dŵr yn werthfawr ac yn brin ar adegau. Wrth i'r haul dywynnu mae tu fewn y tŷ gwydr yn mynd yn boeth iawn ac mae dŵr yn casglu tu fewn i'r waliau a'r to. Gellir cynaeafu'r dŵr sy'n casglu a'i ddefnyddio i ddyfrhau'r planhigion. Byddai llysiau yn tyfu'n dda yn yr amgylchiadau hyn, ond roedd angen gwella'r pridd.

Llun: Cymorth Cristnogol/

Mae'r mwydon/pryfed genwair yn dda iawn am wneud gwrtaith sy'n gwella'r pridd. Golyga hyn fod pobl cymuned Walter yn cael llysiau i'w bwyta a'u gwerthu, ac wrth blannu'r tatws gyda'r gwrtaith, gall teuluoedd gynhyrchu digon o datws ar gyfer y flwyddyn.

Meddai Walter, 'I fwyta'n iawn mae angen llysiau arnon ni. Weithiau rydyn ni'n cael winwns a moron. Rydw i wedi profi letys hefyd. Nawr fe fydda i'n gryfach yn fy nghorff a'm mhen.'

Llun: Cymorth Cristnogol/Andy Taylor